

Tlodi a Banciau Bwyd yng Nghymru

Mae'r seminar hon yn canolbwyntio ar ganfyddiadau ymchwil gwreiddiol i ffenomen banciau bwyd yng Nghymru. Bydd yn gosod twf y banciau bwyd yng nghyd-destun cymdeithas lle bu'n anodd mynd i'r afael â thlodi cymharol a lle mae darpariaeth lles gwirfoddol wedi troi'n fwyfwy sefydliadol gan gymryd lle dulliau gwladwriaethol mwy traddodiadol. Mae i hyn oblygiadau o ran ein gweledigaeth ar gyfer y wladwriaeth les yn dilyn Brexit mewn cyfnod pan fo poblyddiaeth ar gynydd.

Nid oes amheuaeth bod tlodi'n bryder cynyddol ar hyd a lled y Deyrnas Unedig o gofio'r toriadau presennol. Mae'r ymchwil yn edrych ar y profiad o fod mewn tlodi bwyd ac mae wedi ceisio olrhain y profiad hwnnw yn defnyddio dau ddull.

Mae'r dull cyntaf yn edrych ar brofiad banciau bwyd fel y cafodd ei amlygu trwy dwf y 'banciau bwyd'. Mae'r banc bwyd, sy'n nodweddu'r profiad o dlodi ac yn un o arwyddion yr oes, yn lle y gall pobl sy'n dioddef oherwydd rhyw ffurf o anhawster, megis tlodi, colli incwm/cyflogaeth yn sydyn, hawlio cymorth bwyd ar ffurf gwerth tridiau o fwyd am ddim, ac felly, mae twf tlodi bwyd wedi ei nodweddu gan bresenoldeb, defnydd a lledaeniad y banciau bwyd.

Agorodd y banc bwyd cyntaf yng Nghymru yng Nghasnewydd yn 1998 ac yn dilyn hynny agorwyd banc bwyd Prestatyn yn 2005. Mae Ymddiriedolaeth Trussell yn rhedeg rhwydwaith unedig mwyaf y Deyrnas Unedig o fanciau bwyd, ac agorwyd eu banc bwyd cyntaf yng Nghymru yn 2008. Erbyn diwedd y Llywodraeth Lafur yn 2010 roedd cyfanswm o 16 o fanciau bwyd. Yn dilyn newid llywodraeth daeth newidiadau hefyd yn y ffordd y gweinyddir y gyfundrefn les, ac o ganlyniad mae tlodi ar gynydd a chyda hynny nifer y banciau bwyd. Rhwng Mehefin 2010 a Rhagfyr 2015 tyfodd nifer y banciau bwyd gan 141, gan ddod â chyfanswm nifer y banciau bwyd drwy Gymru yn unig i 157.

Mae'r ail ddull yn archwilio'r profiad a'r ddealltwriaeth 'a deimlir' mewn perthynas â thlodi bwyd. Caiff hyn ei drafod gan ddau grŵp neilltuol y mae a wnelo hwy â'r ddarpariaeth banciau bwyd, sef y darparwyr gwasanaeth a'r defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r ddau grŵp yn mynegi eu profiad o dlodi bwyd mewn gwahanol ffyrdd, fodd bynnag, mae'r ddau grŵp hefyd yn mynegi'r un gofid ynglŷn â'r newidiadau a ddaeth yn sgil llymder a'r ffordd y mae darpariaethau lles yn cael eu trawsnewid.

Cyfle i gyfrannu at Banc Bwyd: Byddwn yn casglu ar gyfer yr Banc Bwyd Caerdydd yn y digwyddiad hwn, cysylltwch â dod cyfraniad os hoffech chi.